# the index y mynegai

**Gaeaf 2024**
Rhifyn 45





Y CYLCHLYTHYR
i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol ym Mro Morgannwg





Teuluoedd yn Gyntaf Families First

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

# Cylchlythyr y Mynegai

## Gaeaf 2024 | Rhifyn 45

### Y cylchlythyr i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol ym Mro Morgannwg

Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

Croeso i Rifyn 45, Rhifyn y Gaeaf o Gylchlythyr y Mynegai. Hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda iawn i bawb.

Mae gwaith Y Mynegai a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi bod yn gyffrous iawn ac yn werth chweil ers y rhifyn diwethaf, gyda'r cyfnod cyn y Nadolig a'n dychweliad ym mis Ionawr. Rydym wedi cynnal ein Partïon Nadolig cyntaf ers 2019 ar gyfer plant cyn oed ysgol a phlant oed ysgol ym Mro Morgannwg. Diolch yn arbennig i Kelly a Cath yn ein Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a arweiniodd y digwyddiadau mawr anhygoel hyn; i'r holl ddarparwyr a phobl y tu ôl i'r llenni ac i'r holl deuluoedd am ddod yn ystod yr adeg brysur hon o'r flwyddyn, cawsom hwyl.







**Gellir gweld ein fideo ar ein tudalen Facebook @VOGFIS a cliciwch yma neu sganiwch y cod QR i ddarllen y gwerthusiad.**

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Vale Family Information Service

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Byddai'n bleser mawr gennym dderbyn unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar y Mynegai ond yn enwedig y cylchlythyr hwn, Rhifyn y Gaeaf, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i'w deilwra i anghenion ein plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd yn y Fro.

Mae ein gwybodaeth gyswllt isod at y diben hwn.

Rhif cyswllt: 0800 5871 014

E-bost: TheIndex@valeofglamorgan.gov.uk

Sganiwch y cod QR neu **cliciwch yma** i gwblhau ein harolwg byr

# Darpariaeth Chwarae Cynhwysol y Fro

**Bydd Tîm Chwarae'r Fro yn darparu ystod o gyfleoedd chwarae cynhwysol yn ystod hanner tymor a gwyliau'r haf.**

I gael gwybod am y darpariaethau y maent yn eu cynnig i blant a phobl ifanc ledled y Fro, sganiwch y cod QR

neu **cliciwch yma** i wylio eu fideo.

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost FFHC@valeofglamorgan.gov.uk neu valesportsandplay@valeofglamorgan.gov.uk

# Teenscheme



**Cynhelir y cynllun, Teenscheme, yn ystod hanner tymor bob dydd Mercher a dydd Iau.**

Fe'i cynhelir yn Neuadd Gymunedol y Parc Celtic, Celtic Way, Y Rhws, Bro Morgannwg. CF62 3FT.

Cynhelir y cynllun rhwng 10am a 3pm a bydd angen i rieni ddarparu'r cludiant i'r ganolfan ac oddi yno. Mae angen i bobl ifanc ddarparu eu byrbrydau, cinio a diodydd eu hunain a gofynnwn yn garedig am gyfraniad bach o £5.

Mae Teenscheme yn amgylchedd cynhwysol, a'n nod yw rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi eu hunain a grymuso eu lleisiau a'u penderfyniadau mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar.

Bydd ganddynt Gynorthwywyr Personol i roi gofal personol a bydd un ohonyn nhw wedi'i hyfforddi'n feddygol ar gyfer pobl ifanc sydd angen meddyginiaeth neu fwydo drwy diwb PEG.

Mae lleoedd yn brin. Dim ond drwy atgyfeiriad y mae modd cymryd rhan yn Teenscheme o hyd.

E-bostiwch tmills@valeofglamorgan.gov.uk





## Clybiau Lles ar ôl Ysgol Gwasanaeth Ieuenctid y Fro





**Ar hyn o bryd mae pedwar clwb lles ar ôl ysgol yn ysgolion uwchradd Sant Cyres, Stanwell, Llanilltud Fawr a Whitmore.**

Nod y clybiau ar ôl ysgol yw cefnogi pobl ifanc y mae eu lleoliad ysgol wedi nodi bod angen lefel isel o gymorth lles arnynt. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gyda phethau fel cymdeithasu, magu hyder a meithrin ymdeimlad o berthyn yn eu hysgol.

Mae'r clybiau ar agor i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 i'w cefnogi gyda phontio o'r ysgol gynradd, i'r ysgol uwchradd, gwneud ffrindiau a dod o hyd i'w lle yn eu hysgol.

Nod y clybiau yw bod yn strategaeth ymadael ar gyfer y rhai sy'n derbyn ymyriadau ieuenctid wedi'u targedu, i mewn i glwb ieuenctid mynediad agored. Defnyddir y clybiau ar ôl ysgol hefyd i nodi a oes angen cymorth pellach ar unrhyw bobl ifanc a'u cyfeirio at wasanaethau eraill lle gellir cynnig mwy o gefnogaeth.

**I gael atgyfeiriad, cysylltwch ag arweinydd lles eich ysgol.**







## Chwaraeon Anabledd



**Mae'r Tîm Byw'n Iach yn gweithio gyda Chwaraeon Anabledd Cymru i hyrwyddo cyfleoedd chwaraeon cymunedol a gweithgarwch corfforol i bobl anabl.**

Mae Chwaraeon Anabledd Cymru (DSW) wedi datblygu'r rhaglen Insport, sy'n cefnogi partneriaid i greu darpariaeth, cyfle ac arferion cynhwysol. Bydd hyn yn galluogi pobl anabl i gael mynediad i'r lefel sydd ei hangen arnynt. Maen nhw'n cefnogi clybiau i ennill achrediad Insport.

Y clybiau sydd wedi cyflawni hyn ar hyn o bryd yw:

Aur: **YMCA Gymnasteg y Barri**

Arian: **Karate Shotokan, Motion Control Dawns, Clwb Barri Air Target**

Efydd: **Pen Y Bont SLSC, Karate Jutso Kai Penarth, Golff y Gemau Olympaidd Arbennig, Caiacio'r gemau Olympaidd Arbennig,**

Rhuban: **Pêl-rwyd Iau Red Dragon, Clwb Pêl-droed Anabledd y Barri, Clwb Tennis Lawnt Windsor Penarth, Clwb Nofio Anabledd Barry Beavers, Cowbridge Tennis, Bowls De Cymru, Celtic Capability Sailing, Clwb Golff St Athan.**

I gael rhagor o wybodaeth:
Gwefan www.valeofglamorgan.gov.uk/DisabilitySport

## Pa wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal leol a'r cyffiniau?

### Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro

Mae Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro yn cefnogi rhieni a gofalwyr plant ac oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Mae ganddynt dros 1,900 o deuluoedd fel aelodau ac maen nhw'n credu drwy gydweithio y gallant wella cyfleoedd i deuluoedd. Gallant eich rhoi mewn cysylltiad â rhieni eraill sydd â phrofiadau tebyg sy'n hapus i rannu eu gwybodaeth a dangos y ffyrdd y maent wedi gallu gwneud cynnydd. Maent yn cynnal gweithgareddau lles gofalwyr rheolaidd a chyfarfodydd cymdeithasol ledled Caerdydd a Bro Morgannwg lle gallwch gwrdd â gofalwyr di-dâl eraill wrth rannu profiadau ac awgrymiadau.

Bob blwyddyn rydym yn ceisio cydnabod a dathlu'r unigolion a'r sefydliadau sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iawn i fywydau'r rheini ag anableddau. Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd y Gwobrau Deall Anabledd ac yr oedd cynrychiolwyr Y Mynegai yn bresennol.

I gael rhagor o wybodaeth:
Gwefan: https://www.parentsfed.org
Ffôn: 029 2056 5917
E-bos: admin@parentsfed.org


Parents' Federation / Ffederasiwn Rhieni

The winners

The winners of the awards:

**School Category**
St Michael's Catholic Primary School
Radyr Comprehensive School

**Highly Commended**
Kelly Toshack, Rhws Primary School
Charlie Batten
Tom Davies
Autism Resource Centre Whitmore High School
Ysgol Sant Curig

**Employer Award**
Cardiff and Vale University Health Board

**Young Persons Award**
Eve Robinson

**Professional Award**
Ross Extence




Parents' Federation / Ffederasiwn Rhieni

The winners

**Group or Organisation**
The Sunshine Club

**Individual Award**
Samantha Griffiths

**Highly Commended**
Ela Denley - Vale Plus
CF61 Gardening Volunteers

**Committee Awards**
Abdulah Abdi
Owen Thompson
Ty Bont
Secret Garden - Innovate Trust



Parents' Federation Ffederasiwn Rhieni



# Yr Hangout

**Datblygwyd yr Hangout mewn partneriaeth â'r elusen iechyd meddwl Platfform ac mae'n lle diogel ac amgen i bobl ifanc 11 i 18 oed sy'n wynebu heriau gyda'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol.**

Agorodd yr Hangout yn swyddogol yn 26-28 Ffordd Churchill ar 15 Medi 2023 a bydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl ifanc gael gafael ar gymorth iechyd meddwl a rhywun i siarad â nhw rhwng apwyntiadau.

Mae hefyd yn fan lle gall pobl ifanc gwrdd â phobl eraill, dod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli a chymryd rhan mewn grwpiau a allai wir hybu lles.



**Mae'r Hangout yn cynnig y gefnogaeth ganlynol:**

- Cefnogaeth galw heibio (ar unrhyw adeg yn ystod oriau agor)
- Sesiynau wedi'u trefnu gyda'n tîm lles
- Grwpiau sy'n canolbwyntio ar les
- Sesiynau gweithgaredd grŵp
- Cyfleoedd gwirfoddoli

Wedi'i weithredu gan Platfform, mae'r tîm Hangout yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl i blant a phobl ifanc ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae hyn yn golygu y gallant siarad â gwasanaethau eraill i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth orau gan y bobl gywir ar yr adeg gywir i sicrhau bod ymagwedd gyfannol ac ategol at ofal yn cael ei darparu.

I gael rhagor o wybodaeth:
Ffoniwch 01656 647722 neu
ewch i https://platfform4yp.org/hangout

# Dillad Hygyrch
# Easy On Easy Wear Asda



**Yn gynharach eleni, lansiodd George Asda gasgliad o ddillad gyda ffabrigau sy'n llesol i'r synhwyrau i helpu plant gyda gwisgo'n annibynnol ac anghenion synhwyraidd.**

Wedi'u dylunio gyda chymorth Ava Joliffe, sy'n 14 oed - artist byddar a dall arobryn o Preston a gynorthwyodd ar hygyrchedd a dyluniad y casgliad, gan ddod â mewnwelediad i'r addasiadau sydd eu hangen i sicrhau bod cynhyrchion yn ymarferol i bobl ifanc anabl.

Sganiwch y cod QR neu
**cliciwch yma** i weld y casgliad Easy On Easy Wear.

# Designabillity







**Darperir Wizzybug am ddim gan yr elusen Designability i blant ledled y DU.**
**Mae'n addas ar gyfer plant â heriau symudedd o 14 mis oed i 5 oed (uchafswm o 20kg). Fe'i cynlluniwyd yn benodol ar gyfer plant anabl ifanc i roi mwy o annibyniaeth, rhyddid a dewis iddynt ond yn arbennig, i roi llawer o hwyl iddynt!**

Gall teuluoedd wneud cais i'r cynllun drwy lenwi'r ffurflen gais ar eu gwefan. **Cynhelir apwyntiadau yn eu pencadlys yng Nghaerfaddon neu Ganolfan William Merritt ger Leeds.**

Mae ganddynt hefyd **Gronfa Fynediad fel y gall teuluoedd ar incwm isel wneud cais am help gyda'r gost o fynd i'w hapwyntiad, gan gynnwys llety dros nos os oes angen.** Mae'n hawdd addasu Wizzybug wrth i'ch plentyn dyfu fel y gallwch ei chadw cyhyd â'i bod yn ddiogel ac yn addas i'ch plentyn. Yna caiff ei dychwelyd atynt i gael ei hadnewyddu yn barod ar gyfer teulu arall ei mwynhau.

I gael rhagor o wybodaeth:
Ewch **https://designability.org.uk**

Dilynwch yr elusen ar y cyfryngau cymdeithasol i weld llawer o glipiau o blant y mae eu bywydau wedi'u trawsnewid trwy gael Wizzybug.

Facebook @DesignabilityUK
Instagram @DesignabilityUK

designability

# Ali's Sensory Boxes

**Busnes bach sy'n gwerthu blychau a bagiau synhwyraidd unigoledig er cof am eu merch/chwaer, Ali, oedd ag awtistiaeth ac ADCG.**

Roedd eitemau synhwyraidd yn dod â chysur a difyrrwch i Ali ac roedd wrth ei bodd yn eu rhoi i eraill.


Er mwyn helpu i gadw'r cof amdani'n fyw, yn ogystal â dod â chysur a difyrrwch yr oedd Ali bob amser eisiau i bobl ei deimlo, dechreuodd ei theulu wneud eu blychau synhwyraidd Ali eu hunain.

Ali's Sensory Boxes

Gwybodaeth ychwanegol:
**Ewch https://www.alissensoryboxes.com**







## Makaton i Fabanod a Theuluoedd





**Mae Ginny, Hyfforddwr Arwyddo Makaton ar gyfer Babanod a Theuluoedd, yn angerddol iawn am Makaton a'r manteision o'i defnyddio. Mae hi wedi ei defnyddio trwy gydol ei gyrfa yn gweithio gyda phlant a theuluoedd a gyda'i phlant ei hun.**

Mae Makaton i Fabanod a Theuluoedd yn ffordd hwyliog a hawdd o ddysgu arwyddo gyda'ch plentyn. Mae'n addas ar gyfer plant cyn oed ysgol a'u rhieni/gofalwyr yn ogystal â gweithwyr proffesiynol. Dangoswyd bod arwyddo wrth siarad yn annog datblygiad sgiliau cyfathrebu ac iaith.

Gall helpu i leihau rhwystredigaethau a'ch helpu i ddeall anghenion eich plentyn.

Darperir Makaton i Fabanod a Theuluoedd fel cyfres o sesiynau i chi a'ch plentyn fynd iddynt gyda theuluoedd eraill. Gellir darparu sesiynau rhagflas hefyd. Gellir cynnal sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Gyda'ch gilydd byddwch yn dysgu dros 100 o arwyddion ac yn cael hwyl yn eu hymarfer mewn caneuon, gemau a gweithgareddau. Gellir cynnal sesiynau ar wahân hefyd yn benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol.

Makaton Trainer

Gwybodaeth ychwanegol:
E-bost virginiamayk@yahoo.com

## L.I.F.E - Linking Inclusive Families through social Events



**Mae L.I.F.E yn elusen gofrestredig (Gorffennaf 2022) a sefydlwyd gan bum rhiant gwirfoddol sydd â phlant ag anabledd a/neu anghenion dysgu ychwanegol eu hunain.**

Mae L.I.F.E wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd sy'n byw ym Mro Morgannwg a'r ardaloedd cyfagos. Ei phrif nod yw cefnogi plant ac oedolion ifanc drwy drefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau hamdden a chymdeithasol sydd, yn eu tro, yn rhoi llwyfan iddynt ar gyfer ehangu eu rhwydwaith cymdeithasol eu hunain. Maent hefyd yn annog rhieni i ehangu a datblygu eu cylchoedd cymdeithasol eu hunain a meithrin ffrindiau gydol oes drwy foreau coffi misol a digwyddiadau rhieni/gofalwyr.

Linking Inclusive Families through social Events

Gwybodaeth ychwanegol:
Facebook @ALNCharity
E-bost Info@life-charity.co.uk

## Cynulliad Gofalwyr Caerdydd a'r Fro

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn golygu bod gan ofalwyr di-dâl hawliau newydd bellach i gael mynediad at gymorth gan wasanaethau statudol, gan gynnwys awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd i helpu i ddiwallu anghenion eu rôl ofalu.

Er mwyn cynorthwyo'r cyrff statudol hyn i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol, ac wedi'i ariannu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae Porth Gofalwyr Caerdydd a'r Fro yn helpu pobl i ddeall a ydyn nhw'n ofalwyr, a phryd, ac i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i ddod o hyd i gymorth sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol.

Prif swyddogaethau'r Porth Gofalwyr yw Cefnogi, Gwrando, Hyrwyddo a Dylanwadu.

Nod y Porth Gofalwyr fydd gwella ansawdd bywyd gofalwyr di-dâl, a'r rhai y gofelir amdanynt, yng Nghaerdydd a'r Fro, gan eu helpu i gynnal eu rôl gofalu a gwella eu gallu i gael bywyd y tu allan i ofalu. Bydd yn gwneud hyn drwy ei gwneud yn haws i ofalwyr di-dâl gael gwybodaeth am gymorth a gwasanaethau yn y rhanbarth.

Manylion cyswllt: E-bost gateway@thecarecollective.wales
Rhif ffôn 02921 921024
West House, Stanwell Road, Penarth CF64 2YG

## Siarter Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a'r Fro

### Oeddech chi'n gwybod bod ...

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi lansio Siarter Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a'r Fro yn y Deml Heddwch, Caerdydd ar 24 Mawrth 2023, sydd wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro?

Mae'r Siarter yn cydnabod y cyfraniad hollbwysig y mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud i gymunedau a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'n nodi ymrwymiadau a fydd yn sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod, a bod partneriaid yn cefnogi'r bywyd o ansawdd uchaf posibl i ofalwyr di-dâl a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

**Bydd y Siarter yn ein galluogi i:**
wella cymorth i ofalwyr di-dâl, archwilio a nodi ffyrdd newydd o weithio a chynyddu hygyrchedd at wybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl.

## Brechlyn ffliw a phigiad atgyfnerthu COVID-19 2023/24

Mae rhaglen frechu Atgyfnerthu y Gaeaf Covid-19 ar y gweill bellach. Cael pigiad atgyfnerthu yw'r ffordd orau o amddiffyn eich hun, eich anwyliaid, a'r gymuned, rhag salwch difrifol.

Mae pobl rhwng 16 a 64 oed sy'n ofalwyr di-dâl yn gymwys i gael y brechiadau.

Am ragor o wybodaeth, gweler isod.
Ffôn: 02921 841234



## Ymwybyddiaeth o Ofalwyr – Ymgysylltu â Gofalwyr Di-dâl



Yn 2020 dyfarnwyd cyllid i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r prosiect 'Ymwybyddiaeth o Ofalwyr'.

Y nod yn y pen draw yw sicrhau gwell cydnabyddiaeth, parch a chefnogaeth i ofalwyr di-dâl mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

I wneud hyn, mae Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi cydweithio â gofalwyr di-dâl, Cydffederasiwn y GIG, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain a Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae hyfforddiant ac adnoddau wedi'u datblygu er mwyn:

- Deall anghenion gofalwyr
- Cyfathrebu'n effeithiol â gofalwyr a chynnig cefnogaeth
- Ymwybyddiaeth o'r fframwaith cyfreithiol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Gweithio tuag at Egwyddorion Arfer Da Ymwybyddiaeth o Ofalwr
- Cynyddu hyder a sgiliau i gynnal asesiadau ystyrlon o anghenion gofalwyr
- Gwella dealltwriaeth a pharch tuag at bawb i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ofalwyr ac ymarferwyr
- Archwilio rhwystrau ac arferion da cyfredol mewn gwaith o ddydd i ddydd gyda gofalwyr

Edrychwch ar yr adnoddau sydd ar gael i chi:
https://www.carersuk.org/wales/for-professionals/carer-aware/resources

## Sesiynau Amser i Ofalwyr Cymru i ofalwyr

**Cyfres o weithgareddau ar-lein i gefnogi eich lles yw sesiynau Amser Fi yng Nghymru.**

Mae'r gweithgareddau'n amrywio o gyngor ymarferol ar hawliau gofalwyr a gofalu am sesiynau lles emosiynol a chorfforol fel ymwybyddiaeth ofalgar a dawns, i gyfleoedd creadigol fel crefftio a choginio. Mae'r sesiynau ar agor i unrhyw un ar draws y Deyrnas Unedig.

**Chwefror a Mawrth**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth 6 Chwefror 2-3pm | Siaradwyr a dyfais Smart |
| Dydd Iau 22 Chwefror 12:30 - 1:30pm | Gofalwyr sy'n Gweithio - beth sydd angen i chi ei wybod |
| Dydd Mawrth 12 Mawrth 3-4pm | Ymwybyddiaeth Ofalgar |
| Dydd Mawrth 19 Mawrth 1-3pm | Hawliau Gofalwyr yng Nghymru |

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am yr hyn sydd ar gael a sut i archebu ar y sesiynau trwy ein gwefan.

Gwybodaeth bellach:

Ymweld https://www.carersuk.org/wales/help-and-advice/your-health-and-wellbeing/me-time-sessions/metime-sessions/

Ebost info@carerswales.org Ffôn 02920 811370

## Cynllun Seibiannau Byr Cymru

**Amser yw'r gronfa grantiau ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu seibiannau byr personol, hyblyg a chreadigol i ofalwyr di-dâl yng Nghymru.**



Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae Amser yn rhan o'r Cynllun Seibiannau Byr ar gyfer gofalwyr di-dâl a'i nod yw galluogi 30,000 o ofalwyr i gael seibiant o ofalu erbyn 2025.

Mae ystod o opsiynau seibiant i fodloni cymunedau amrywiol Cymru wedi eu hariannu drwy'r rhaglen hon. Nod y rhain yw gwella cadernid a lles gofalwyr a chefnogi cynaliadwyedd perthynas ofalu y gofalwr.

I wneud cais am seibiant byr wedi'i ariannu gan Amser, dylai gofalwyr di-dâl gysylltu â'u darparwr lleol yn uniongyrchol.

Gwybodaeth bellach:
Mae rhestr lawn ar gael yn www.carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/amser
E-bost wales@carers.org

# Addysg

## Ysgolion newydd



**Agorodd Ysgol Gynradd y Bont-faen ym mis Medi 2023 i ateb twf yn y galw yn y gymuned leol gan ddarparu 210 o leoedd i ddisgyblion.** Ysgol y Bont-faen yw'r ysgol 3 i 19 gyntaf ym Mro Morgannwg.

**Mae Derw Newydd** yn y Barri **wedi disodli'r Uned Cyfeirio Disgyblion, Y Daith ac yn cael ei rheoli gan Ysgol y Deri.** Mae'n adeilad pwrpasol ar gyfer anghenion ychwanegol ym Mro Morgannwg ac mae'n rhan o fenter Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleusterau priodol ar gyfer y myfyrwyr hynny, gan greu lleoedd ar gyfer 60 o blant o oed ysgol gyfun sydd wedi cael eu cyfeirio at Derw Newydd.

**Ysgol y Deri Barry -**
**Mae'r adeilad a arferai fod yn gartref i Ysgol Sant Baruc yn y Barri wedi cael ei adnewyddu a'i ôl-osod ag ystod o offer arbenigol i ddarparu dysgu ar gyfer 60 o ddisgyblion a staff.** Mae Ysgol y Deri, y Barri yn cynnwys nodweddion fel ystafell goginio, ystafell therapi, derbynfa newydd a mannau ymneilltuo i rieni a gofalwyr ac ystafell fwyta bwrpasol ar y safle. Mae hwn yn fesur dros dro tra bod adeilad pwrpasol newydd, a elwir yn Ysgol y Deri 2 ar hyn o bryd, yn cael ei ddatblygu yn Cosmeston, ger Penarth.

# Pontio

## Cynradd i Uwchradd

Ar 1 Mawrth, 2024 bydd canlyniadau lleoliadau ysgolion uwchradd yn cael eu cyhoeddi.

**Mae'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd yn cyfeirio at y cyfnod y mae plentyn yn gwneud y newid addysgol o orffen yn ei flwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd, i setlo i mewn i gyfnod newydd yn ei fywyd ym Mlwyddyn 7.**



Gan gydnabod bod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn newid arbennig o arwyddocaol i blant; mae gan elusen YoungMinds adnoddau ar gael i blant, pobl ifanc, teuluoedd a staff ysgolion i gefnogi'r symud hwn.

I gael rhagor o wybodaeth:
Gwefan https://www.youngminds.org.uk/professional/resources/supporting-school-transitions

## Pontio i Fywyd fel Oedolyn

## Agor Tŷ Catwg



**Mae Tai Taf yn datblygu hostel a fydd yn gartref i 10 unigolyn, 16 oed ac yn hŷn, yn eu fflatiau hunangynhwysol eu hunain, sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, ac sydd ag anghenion cymorth cymhleth. Bydd yr hostel yn cael ei adnabod fel Tŷ Catwg a bydd yn agor yn gynnar yn 2024.**

Ariennir y prosiect gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae'n rhan o strategaeth Cymorth Tai ac Atal Digartrefedd y Cyngor.

Gyda'u sgiliau a'u hymdrechion cyfunol, gweithio ar y cyd â gwasanaethau a sefydliadau lleol a thrwy feithrin perthnasoedd cadarnhaol yn y gymuned, y gallant helpu preswylwyr i gyflawni eu nodau a symud ymlaen yn llwyddiannus i lety annibynnol.

I gael rhagor o wybodaeth: **E-bost** tycatwghotel@taffhousing.co.uk

## Ap Insight

**Insight yw ap cymunedol am ddim Innovate Trust ar gyfer oedolion ag anableddau ar draws y DU.** Mae Insight yn darparu dros 80 o weithgareddau byw ac wyneb yn wyneb yr wythnos a man cymdeithasol i bobl rannu, gwneud ffrindiau a chael eu cynnwys yn ddigidol mewn amgylchedd hygyrch a chyfeillgar.

I gael rhagor o wybodaeth:
https://innovate-trust.org.uk/services/insight-app/
Facebook @InnovateTrustOrg

## Ymwadiad

Nid yw mwyafrif y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y cylchlythyr hwn yn cael eu rheoli na'u rhedeg gan Gyngor Bro Morgannwg. Cafodd y cylchlythyr hwn ei greu mewn ymdrech i'ch helpu i gysylltu gwasanaethau. Ni ellir dal Cyngor Bro Morgannwg yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw sefydliad allanol a enwir yn y cylchlythyr hwn ac ni ellir ei ddal yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled a achosir gan unrhyw anghywirdeb yn y cylchlythyr hwn, nac ychwaith am weithredoedd unrhyw un o'r sefydliadau allanol a restrir.
Nid yw rhestru sefydliad yn y cylchlythyr hwn yn golygu bod Cyngor Bro Morgannwg yn cymeradwyo'r sefydliad hwnnw, ac nid yw peidio â rhestru unrhyw sefydliad yn golygu nad yw'r Cyngor yn ei gefnogi ychwaith.